# Cynhadledd Bwyd Mewn Cymunedau
## Dydd Gwener, Gorffennaf 1af

Diolch am gofrestru i fynychu'r gynhadledd.  Gweler gwybodaeth bellach isod:

**Cynhadledd Bwyd mewn Cymunedau: 01/07/2022**

- Lleoliad: Yr Egin, Heol-y-Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ (ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant)

- **Cyfarwyddiadau**: Wedi'i leoli filltir y tu allan i ganol tref Caerfyrddin, mae Campws Caerfyrddin yn hawdd i'w gyrraedd, gyda chysylltiadau da gyda gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae manylion ar sut i gyrraedd y campws o bob cyfeiriad, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o deithio ynghlwm fel dogfen PDF.

- Cerdded o orsaf drenau SA31 2BE i'r campws SA31 3EP – 23 munud tua 1.1 milltir yn bennaf fflat

- **Parcio**: Gall unrhyw ymwelwyr sy'n gyrru i'r gynhadledd barcio ar gampws y brifysgol. Bydd parcio cyfyngedig ar gael y tu allan i'r Egin (rhif **29** ar y map). Mae llefydd parcio ychwanegol ar gael yn rhad ac am ddim ar brif gampws y Brifysgol sydd gyferbyn ag adeilad Yr Egin.

- Rydym yn eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu rannu car os yn bosib.

- **Dolen i'r agenda**: **Cliciwch yma** i weld amserlen/agenda'r gynhadledd yn ogystal â gwybodaeth bellach am y paneli.

- Darperir **lluniaeth** a chinio yn ystod y gynhadledd ac mae eich gofynion dietegol wedi'u nodi (yn unol â'ch ffurflen gofrestru).

- **Cwestiynau**: Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â **foodsensewales@wales.nhs.uk** os gwelwch yn dda.

- **Cysylltu ar ddiwrnod y gynhadledd:** Os bydd angen i chi gysylltu â rhywun o Synnwyr Bwyd Cymru ar ddiwrnod y gynhadledd, ffoniwch/danfonwch neges destun at Caz Falcon: **07435 701904**

- **Ymwadiad:** Bydd fideograffydd a ffotograffydd yn bresennol ar y diwrnod. Os nad ydych am i ni dynnu'ch llun neu eich ffilmio, rhowch wybod i aelod o dîm Synnwyr Bwyd Cymru ar y diwrnod neu anfonwch **e-bost** atom ymlaen llaw. Byddwn yn defnyddio rhai o'r lluniau / clipiau ar ein gwefan/cyfryngau cymdeithasol/deunyddiau hyrwyddo/hysbysebu/cynadleddau eraill.

- Os oes angen llety dros nos, naill ai nos Iau 30/06/22 neu nos Wener 01/07/22 neu'r ddwy noson, cysylltwch â ni drwy **e-bost** a byddwn yn hapus i drosglwyddo rhai argymhellion. Gallwn hefyd drefnu gwely a brecwast am bris arbennig ar gampws y Brifysgol.